# Ymgynghoriad ar y fanyleb ar gyfer yr ychwanegyn bwyd, rebaudiosid M (RP1194)

**Dyddiad lansio:** **23 Ionawr 2023**

**Ymateb erbyn:** **6 Chwefror 2023**

## Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i’r canlynol yn bennaf:

- Cymdeithasau masnach y diwydiant bwyd.
- Gweithredwyr busnesau bwyd yn y DU sy'n dymuno defnyddio'r ychwanegyn bwyd.
- Awdurdodau Gorfodi, gan gynnwys awdurdodau lleol, Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd, a Chynghorau Dosbarth.
- Defnyddwyr a rhanddeiliaid ehangach.

Mae rhestr o bartïon sydd â buddiant wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

## Pwnc a diben yr ymgynghoriad

Ymgynghorwyd yn ddiweddar ar gais i ddiwygio'r fanyleb ar gyfer gweithgynhyrchu'r ychwanegyn bwyd glycosidau stefiol (E 960) i gynnwys rebaudiosid M (E 960c, glycosidau stefiol a gynhyrchir gan ddefnyddio ensymau), i'w ddefnyddio fel melysydd calorïau isel, dwysedd uchel, presennol a ganiateir. Polisïau

Fodd bynnag, rydym wedi nodi y bu hepgoriad yn yr ymgynghoriad gwreiddiol ac felly rydym yn mynd ati nawr i geisio adborth rhanddeiliaid mewn perthynas â'r fanyleb

dechnegol arfaethedig ar gyfer E 960c. Dylid nodi hefyd, o ganlyniad, y bydd angen i enw a rhif E yr ychwanegyn presennol glycosidau stefiol E 960 newid o stefia i glycosidau stefiol E 960a, er na fydd y fanyleb dechnegol ei hun yn newid.

Gofynnwn i randdeiliaid ystyried unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir (*retained*) a ffactorau dilys eraill (tystiolaeth arall sy'n cefnogi dadansoddiad risg clir, rhesymol, a chyfiawnadwy fel dichonoldeb technegol a ffactorau amgylcheddol) sy'n berthnasol i'r ceisiadau hyn. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i safbwyntiau rhanddeiliaid gael eu hystyried er mwyn hysbysu Gweinidogion.

Bydd ymgynghoriad cyfochrog yn cael ei gyhoeddi gan Safonau Bwyd yr Alban.

## Manylion yr ymgynghoriad

### Cyflwyniad

Er mwyn cael eu rhoi ar y farchnad, rhaid i geisiadau i awdurdodi cynhyrchion rheoleiddiedig gael eu cyflwyno i'w hawdurdodi ym Mhrydain Fawr, lle caiff y penderfyniad o ran awdurdodi ei wneud gan y Gweinidogion priodol yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Dyma swyddogaeth a gyflawnid yn flaenorol ar lefel yr UE. Yng Ngogledd Iwerddon, mae deddfwriaeth yr UE ar ychwanegion bwyd anifeiliaid yn dal i fod yn berthnasol o dan delerau cyfredol Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu bod angen awdurdodi cynhyrchion o'r fath o dan weithdrefnau awdurdodi'r UE cyn eu rhoi ar y farchnad yng Ngogledd Iwerddon.

## Pwnc yr ymgynghoriad hwn

Yn unol â Rheoliad a Ddargedwir yr UE 1331/2008 sy'n sefydlu gweithdrefn awdurdodi gyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd, ensymau bwyd a chyflasynnau, cyflwynwyd yr ychwanegyn bwyd rebaudiosid M (E 960c, glycosidau stefiol a gynhyrchir gan ddefnyddio ensymau) i'w awdurdodi.

Ymgynghorwyd ar awdurdodi'r ychwanegyn bwyd hwn yn ddiweddar. Rydym yn awr yn ceisio adborth rhanddeiliaid mewn perthynas â'r fanyleb dechnegol arfaethedig ar gyfer E 960c oherwydd os caiff yr ychwanegyn bwyd hwn ei awdurdodi gan Weinidogion, bydd angen diwygio Rheoliad yr UE a Ddargedwir 231/2012 i gynnwys y fanyleb dechnegol ar gyfer E 960c.

Os bydd y cofnod glycosid stefiol newydd (E 960c) yn cael ei ychwanegu at fanylebau ychwanegion yn rheoliad 231/2012, bydd newid canlyniadol hefyd lle bydd y fanyleb ychwanegyn bresennol ar gyfer glycosidau stefiol (E 960) sy'n deillio o'r ddeilen stefia yn cael ei ailenwi yn 'E 960a 'Glycosidau stefiol o stefia'.

Mae'r fanyleb sydd wedi'i chynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn cyd-fynd â deddfwriaeth sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotocol Gogledd Iwerddon. O'r herwydd, ni fyddai awdurdodi yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn arwain at wahaniaethau rheoleiddio o fewn y DU.

Mae'r fanyleb arfaethedig wedi'i chynnwys yn Atodiad B. Ceir manylion am awdurdodiad arfaethedig E 960c yn yr ymgynghoriad ar awdurdodi.

## Y broses ymgysylltu ac ymgynghori

Cyhoeddir manylion yr holl geisiadau am gynhyrchion rheoleiddiedig a ddilyswyd ar y Gofrestr Ceisiadau am Gynhyrchion Rheoleiddiedig ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Gwahoddir rhanddeiliaid i ystyried y cwestiynau a ofynnir isod mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a ffactorau dilys eraill.

Yn dilyn y broses ymgynghori bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi, a byddant ar gael i randdeiliaid a Gweinidogion.

### Y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

1. A oes gennych unrhyw adborth ynghylch manyleb E 960c, glycosidau stefiol a gynhyrchwyd gan ddefnyddio ensymau?
2. A oes gennych unrhyw adborth arall?

## Sut i ymateb

Dylid cyflwyno sylwadau o fewn pythefnos i ddyddiad y cyhoeddiad hwn a bydd unrhyw sylwadau a ddaw i law yn amodol ar ein hysbysiad preifatrwydd ar gyfer ymgynghoriadau.

Dylid anfon sylwadau dros e-bost i: RPconsultations@food.gov.uk gan nodi'r llinell destun 'Ymgynghoriad ar gynhyrchion rheoleiddiedig – RP1194'.

Nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli), ac ym mha wlad rydych wedi'ch lleoli.

## Y camau nesaf

Bydd unrhyw adborth i'r adolygiad hwn yn cael ei ystyried, ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, wrth benderfynu'n derfynol ar y cyngor i'w roi i Weinidogion y DU.

## Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

Ein nod yw cyhoeddi crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn o fewn 12 wythnos ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

I gael gwybodaeth am sut mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer Ymgynghoriadau.

Rhennir ymatebion gyda Safonau Bwyd yr Alban.

### Rhagor o wybodaeth

Os bydd angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag Egwyddorion Ymgynghori Llywodraeth Ei Fawrhydi.

Ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Hayley Bland
Cynghorydd Polisi Cynhyrchion Rheoleiddiedig
Gwasanaethau Rheoleiddiedig

## Atodiad A: Rhestr o randdeiliaid

Cysylltir yn uniongyrchol â chymdeithasau masnach rhanddeiliaid allweddol sydd â buddiant sylweddol mewn ychwanegion bwyd, ac a gynrychiolir ar draws pedair gwlad y DU, er mwyn cael eu hadborth am yr ymgynghoriad hwn:

- Breakfast Cereals UK
- Cymdeithas Ddeieteg Prydain
- Sefydliad Maetheg Prydain
- Cymdeithas Sudd Ffrwythau Prydain
- Consortiwm Manwerthu Prydain
- Cymdeithas Diodydd Meddal Prydain
- Cymdeithas Maeth Arbenigol Prydain
- Busnes Cymru
- Baby Milk Action
- Campden BRI
- Cymdeithas Cynhyrchwyr Cynhwysion Grawnfwydydd
- Cyngor Maeth Cyfrifol y DU
- Dairy UK
- Ffederasiwn y Pobyddion

- Ffederasiwn Busnesau Bach (Cymru)
- Ffederasiwn Busnesau Bach (Gogledd Iwerddon)
- Ffederasiwn Bwyd a Diod (Lloegr)
- FDF Sector Group:  Bisgedi, Cacennau, Siocledi a Melysion
- FDF Sector Group: Ychwanegion bwyd
- Ffederasiwn Bwyd a Diod (Cymru)
- Cymdeithas y Diwydiant Ychwanegion Bwyd (FAIA)
- Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Bwyd Iachus
- Leatherhead Food International
- Cymdeithas Bwyd a Diod Gogledd Iwerddon
- Consortiwm Manwerthu Gogledd Iwerddon
- Ffederasiwn Masnachu Bwydydd
- Y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faeth
- Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Byrbrydau, Cnau a Chreision (SNACMA)
- Cymdeithas Blasau'r DU
- Melinwyr Blawd y DU
- Consortiwm Manwerthu Cymru
- Which?

Nid rhestr gynhwysfawr yw hon.

Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.

# Atodiad B: RP1194 – Rebaudiosid M (addasiad i'r fanyleb)

## Cefndir

Cyflwynwyd cais am ddiwygio'r manylebau ar gyfer gweithgynhyrchu'r ychwanegyn bwyd glycosidau stefiol (E 960) i gynnwys dull newydd ar gyfer cynhyrchu rebaudiosid M, i'w ddefnyddio fel melysydd dwysedd uchel, isel mewn calorïau cyfredol a ganiateir fel y'i nodir yn Rheoliad yr UE a Ddargedwir 1331/2008.

Ymgynghorwyd ar awdurdodi'r ychwanegyn bwyd hwn yn ddiweddar. Rydym nawr yn ceisio adborth gan randdeiliaid mewn perthynas â diwygiadau i'r fanyleb dechnegol ar gyfer E 960 (glycosidau stefiol) fel y gellir gosod y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n nodi manyleb dechnegol, pe bai rebaudiosid M yn cael ei awdurdodi.

Mae'r fanyleb sydd wedi'i chynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn cyd-fynd â deddfwriaeth sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.  O'r herwydd, ni fyddai awdurdodi yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn arwain at wahaniaethau rheoleiddio o fewn y DU.

Mae manylion yr awdurdodiad arfaethedig ar gyfer rebaudiosid M i'w gweld yn yr ymgynghoriad ar awdurdodi.

## Manyleb arfaethedig

Cynigir diwygio'r Atodiad i Reoliad yr UE a Ddargedwir 231/2012 fel a ganlyn:

1. Yn y cofnod ar gyfer E 960 glycosidau stefiol, caiff y pennawd ei ddisodli gan y canlynol:

   **'E 960a GLYCOSIDAU STEFIOL O STEFIA'**

2. Mewnosodir y cofnod newydd canlynol ar ôl y cofnod ar gyfer E 960:

   **'E 960c(i) REBAUDIOSID M WEDI'I GYNHYRCHU TRWY ADDASU GLYCOSIDAU STEFIOL O STEFIA GAN DDEFNYDDIO ENSYMAU**

| Categori | Manylion |
| --- | --- |
| **Diffiniad** | Mae Rebaudiosid M yn glycosid stefiol sy'n cynnwys rebaudiosid M yn bennaf gyda mân symiau o glycosidau stefiol eraill fel rebaudiosid A, rebaudiosid B, rebaudiosid D, rebaudiosid I, a stefiosid.<br><br>Ceir Rebaudiosid M trwy fio-drosi ensymatig o echdynion dail glycosid stefiol wedi'u puro (95% glycosidau stefiol) o'r planhigyn *Stevia rebaudiana* Bertoni gan ddefnyddio ensymau UDP-glwcosyltransfferas a swcros synthas a gynhyrchir gan y burumau a addaswyd yn enetig *K. phaffi* (a elwid gynt yn *Pichia pastoris*) UGT-a a *K. phaffi* UGT-b sy'n hwyluso'r broses o drosglwyddo glwcos o swcros ac UDP-glwcos i glycosidau stefiol trwy fondiau glycosidig.<br><br>Ar ôl cael gwared ar yr ensymau trwy wahaniad hylif-solid a thriniaeth wres, mae'r broses buro'n cynnwys crynodiad y rebaudiosid M trwy arsugniad resin, ac yna ailgrisialu rebaudiosid M gan arwain at gynnyrch terfynol sy'n cynnwys dim llai na 95% o rebaudiosid M. Ni fydd celloedd hyfyw o'r burumau *K. phaffii* UGT-a a *K. phaffii* UGT-b na'u DNA i'w canfod yn yr ychwanegyn bwyd. |
| Enw cemegol | Rebaudiosid M: 13-[(2-O-β-D-glwcopyranosyl-3-O-β-D-glwcopyranosyl-β-D-glwcopyranosyl)oxy]kaur-16-en-18-oic acid, 2-O-β-D-glwcopyranosyl-3-O-β-D-glwcopyranosyl-β-D-glwcopyranosyl ester |
| Fformiwla foleciwlaidd | $C_{56}H_{90}O_{33}$, ffactor trosi 0.25 |
| Enw ansystematig | Rebaudiosid M |

| | |
|---|---|
| Pwysau moleciwlaidd | Pwysau moleciwlaidd (g/mol): 1.291.29 |
| Rhif CAS | 1220616-44-3 |
| Assay | Dim llai na 95% rebaudiosid M ar y sail sych. |
| **Disgrifiad** | Powdwr gwyn i felyn ysgafn, rhwng tua 200 a 350 gwaith fwy melys na swcros (cyfwerth â swcros o 5%). |
| Adnabod: Hydoddedd | Yn hydawdd iawn i ychydig yn hydawdd mewn dŵr |
| Adnabod: pH | Rhwng 4.5 a 7.0 (hydoddiad 1 mewn 100) |

**Purdeb**

| **Math o sylwedd** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Cyfanswm lludw | Dim mwy nag 1 % |
| Colli wrth sychu | Dim mwy na 6% (105 °C, 2 awr) |
| Hydoddydd gweddilliol | Dim mwy na 5000 mg/kg ethanol |
| Arsenig | Dim mwy na 0.015 mg/kg |
| Plwm | Dim mwy na 0.2 mg/kg |
| Cadmiwm | Dim mwy na 0.015 mg/kg |
| Mercwri | Dim mwy na 0.07 mg/kg |
| Protein gweddilliol | Dim mwy na 5 mg/kg |

| | |
|---|---|
| Maint gronynnau | Dim llai na 74 μm [gan ddefnyddio rhidyll rhwyll #200 gyda chyfyngiad maint gronynnau o 74 μm]’ |

Dychwelyd i frig y ddogfen ymgynghori.